

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDIOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure

Mae'r gwelliannau â * ar eu bwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Caiff y Mesur ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Measure will be considered in the following order –

Sections 1-2	Adrannau 1-2
New Schedules	Atodlenni Newydd
Sections 3 - 7	Adrannau 3 -7
New Section	Adran Newydd
Long Title	Teitl Hir

Ann Jones

1

Section 1, page 2, line 4, leave out 'when completed' and insert 'in respect of each residence to which it relates'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 4, gadewch allan 'unwaith y caiff ei gwblhau' a rhowch yn ei le 'mewn perthynas â phob preswylfa y mae'n gymwys iddi'.

Ann Jones

2

Section 1, page 2, line 5, after '(4)', insert 'when –

- (a) that work is completed, or
 - (b) the residence is occupied as a residence,
- whichever is the earlier'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 5, ar ôl '(4)', ychwanegwch 'unwaith –

- (a) y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, neu
 - (b) y bydd y breswylfa wedi'i meddiannu at ddibenion preswyl,
- pa un bynnag sydd gynharaf'.

Ann Jones

3

Section 1, page 2, line 9, after 'residence,', insert 'or a number of residences,'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 9, gadewch allan 'breswylfa,' a rhowch yn ei le 'un breswylfa neu fwy,'.

Ann Jones

4

Page 2, line 28, leave out section 2 and insert –

- '(1) Except as provided in subsection (3), it is the duty of a local authority to enforce the provisions of this Measure in relation to its area.
- (2) Schedule 1 makes provision in relation to enforcement by local authorities.
- (3) Subsection (1) has effect subject to the provisions of Schedule 2 (Building work supervised otherwise than by local authorities).'

Tudalen 2, llinell 29, gadewch allan adran 2 a rhowch yn ei lle –

- '(1) Ac eithrio fel y darperir gan is-adran (3), dyletswydd awdurdod lleol yw gorfodi darpariaethau'r Mesur hwn mewn perthynas â'i ardal.
- (2) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi gan awdurdodau lleol
- (3) Caiff is-adran (1) rym yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Atodlen 2 (Gwaith adeiladu a oruchwylir gan rywun ac eithrio awdurdodau lleol).'

Ann Jones

24

To insert a new Schedule –

‘SCHEDULE 1
(as introduced by section 2)

ENFORCEMENT

Penalty for contravening section 1(1)

- 1 A person who carries out building work which fails, at the time specified by section 1(1), to comply with the requirements of section 1(4), is guilty of an offence and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Time limit for prosecution

- 2 (1) Despite anything in section 127(1) of the Magistrates Court Act 1980 (c.43), an information relating to an offence under paragraph 1 may be tried by a magistrates’ court if it is laid at any time –
- (a) within the period of two years beginning with the day on which the offence is committed, and
 - (b) within the period of six months beginning with the relevant date.
- (2) In subparagraph (1)(b), “the relevant date” means the date on which evidence sufficient to justify the proceedings comes to the knowledge of the person commencing the proceedings.
- (3) In the case of proceedings commenced by a local authority –
- (a) evidence is to be regarded for the purpose of subparagraph (2) above as sufficient to justify the proceedings if in the opinion of the proper officer or an authorised officer it is sufficient to justify the proceedings, and
 - (b) a certificate of the proper officer or, as the case may be, that authorised officer as to the date on which evidence which, in the opinion of that officer, was sufficient to justify the proceedings came to the knowledge of the person commencing the proceedings is to be conclusive evidence of that fact.

Alteration of offending work

- 3 (1) If any building work to which this Measure applies fails, at the time specified by section 1(1), to comply with the requirements of section 1(4), the local authority, without prejudice to its right to take proceedings for a fine in respect of the contravention, may, if the failure to comply with those requirements continues, by notice require the owner to effect such alterations to the work as may be necessary to make it comply with those requirements.
- (2) If any building work to which this Measure applies is carried out –
- (a) without the information required by section 3(1) having been given, or
 - (b) notwithstanding the fact that the local authority has given notice under section 3(3),

the authority may by notice to the owner require the owner to comply with any requirements specified in the notice, being requirements necessary to ensure that the work complies with the requirements of section 1(4).

- (3) If a person to whom a notice has been given under subparagraph (1) or (2) above fails to comply with the notice before the expiration of 28 days, or such longer period as a magistrates' court may, on an appeal by that person under paragraph 5, allow, the local authority may effect such alterations to the work as it deems necessary to ensure that it complies with the requirements of section 1(4) and may recover from that person the expenses reasonably incurred by the authority in doing so.
- (4) A notice under subparagraph (1) or (2) above (called a "paragraph 3 notice") –
 - (a) must state that the person to whom it is given may, within the time fixed by paragraph 8, appeal against the notice to the magistrates court under paragraph 5, and
 - (b) may not be given after the expiration of 12 months from the date of the completion of the work in question.
- (5) A paragraph 3 notice may not be given, in a case where the information required by paragraph 3(1) was given to the authority and the work was carried out in accordance with that information, on the ground that the work contravenes the requirements of section 1(4), unless the authority gave notice under section 3(3) within the relevant period.
- (6) This paragraph does not affect the right of a local authority, the Welsh Ministers or any other person to apply for an injunction for the alteration of any work on the ground that it fails to comply with the requirements of section 1(4); but if –
 - (a) information in respect of the work was provided to the local authority in accordance with section 3(1),
 - (b) the authority did not give notice under section 3(3) within the relevant period, and
 - (c) the work has been carried out in accordance with that information,the court on granting an injunction has power to order the local authority to pay to the owner of the work such compensation as the court thinks just, but before making any such order the court must in accordance with rules of court cause the local authority, if not a party to the proceedings, to be joined as a party to them.

Obtaining of report where paragraph 3 notice given

- 4 (1) In a case where –
 - (a) a person to whom a paragraph 3 notice has been given gives to the local authority by whom the notice was given notice of intention to obtain from a suitably qualified person a written report concerning work to which the paragraph 3 notice relates, and
 - (b) such a report is obtained and submitted to the local authority and, as a result of its consideration of it, the local authority withdraws the paragraph 3 notice, the local authority may pay to the person to whom the paragraph 3 notice was given such amount as appears to the authority to represent the expenses reasonably incurred by the person in consequence of the authority having given that notice including, among other things, the expenses in obtaining the report.
- (2) Subject to subparagraph (3) below, if a person to whom a paragraph 3 notice has been given gives notice under subparagraph (1)(a) above, then, so far as regards the

matters to which the paragraph 3 notice relates, the reference to 28 days in paragraph 3(3) above is to be construed as a reference to 70 days.

- (3) Notice under subparagraph (1)(a) above must be given before the expiry of the period of 28 days referred to in paragraph 3(3) above, or, as the case may be, within such longer period as a court allows under paragraph 3(3); and, where such a longer period has been so allowed before notice is given under subparagraph (1)(a) above, subparagraph (2) above does not apply.

Appeal against a paragraph 3 notice

- 5 (1) A person who is given a paragraph 3 notice may appeal to a magistrates' court on any of the following grounds that are appropriate in the circumstances of the particular case –
- (a) that the notice or a requirement that it imposes is not justified by the terms of paragraph 3,
 - (b) that there has been some informality, defect or error in, or in connection with, the notice,
 - (c) that the authority has refused unreasonably to approve the execution of alternative works, or that the works required by the notice to be executed are otherwise unreasonable in character or extent, or are unnecessary,
 - (d) that the time within which the works are to be executed is not reasonably sufficient for the purpose.
- (2) If and in so far as an appeal under this section is based on the ground of some informality, defect or error in or in connection with the notice, the court must dismiss the appeal, if it is satisfied that the informality, defect or error was not a material one.

Power to enter premises

- 6 (1) Subject to this paragraph an authorised officer of a local authority, on producing, if so required, some duly authenticated document showing his authority, has a right to enter any premises at all reasonable hours –
- (a) for the purpose of ascertaining whether there is, or has been, on or in connection with the premises, a failure to comply with the requirements of this Measure that it is the duty of the local authority to enforce,
 - (b) for the purpose of ascertaining whether or not circumstances exist that would authorise or require the local authority to take any action, or execute any work, under this Measure,
 - (c) for the purpose of taking any action, or executing any work, authorised or required by this Measure, or by an order made under this Measure, to be taken, or executed, by the local authority, or
 - (d) generally for the purpose of the performance by the local authority of its functions under this Measure.
- (2) Admission to premises may not be demanded as of right unless 24 hours' notice of the intended entry has been given to the occupier.
- (3) If it is shown to the satisfaction of a justice of the peace on sworn information in writing that –

- (a) admission to any premises has been refused or refusal is apprehended, or the premises are unoccupied, or the occupier is temporarily absent, or the case is one of urgency, or an application for admission would defeat the object of the entry, and
- (b) there is reasonable ground for entry into the premises for any of the purposes mentioned in subparagraph (1) above,

the justice may by warrant under the hand of the justice authorise the local authority by any authorised officer to enter the premises, if need be by force.

- (4) A warrant may not be issued under subparagraph (3) above unless the justice is satisfied that—
 - (a) notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier, or
 - (b) the premises are unoccupied, or the occupier is temporarily absent, or the case is one of urgency, or the giving of the notice would defeat the object of the entry.
- (5) An authorised officer entering premises by virtue of this paragraph, or of a warrant issued under it, may take with the officer such other persons as may be necessary, and on leaving unoccupied premises that the officer has entered by virtue of such a warrant the officer must leave them as effectually secured against trespassers as the officer found them.
- (6) A warrant issued under this paragraph continues in force until the purpose for which the entry is necessary has been satisfied.

Tests for conformity with the requirements of this Measure

- 7 (1) This paragraph has effect for the purpose of enabling a local authority to ascertain, as regards any building work or proposed building work to which this Measure applies, whether any requirement of this Measure that it is the duty of the authority to enforce has been or will be complied with.
- (2) The local authority has power for that purpose—
 - (a) to require a person by whom or on whose behalf the work was, is being, or is proposed to be done to carry out such reasonable tests of or in connection with the work as may be specified in the requirement, or
 - (b) itself to carry out reasonable tests of or in connection with the work.
- (3) Without prejudice to the generality of subparagraph (2) above, the matters with respect to which tests may be required or carried out under that subparagraph include tests of any material, component or combination of components that has been or is being proposed to be used in carrying out the work and tests of any service, fitting or equipment that has been, is being or is proposed to be provided in connection with that work.
- (4) The expense of carrying out any tests that a person is required to carry out under this paragraph are to be met by that person, except that the local authority, on an application made to the authority, may, if it thinks it reasonable to do so, direct that the expense of carrying out any such tests, or such part of that expense as may be specified in the direction, is to be met by the local authority.
- (5) Any question arising under this paragraph between a local authority and a person as to the reasonableness of—

- (a) a test specified in a requirement imposed on that person by the authority under this paragraph,
 - (b) a refusal by the authority to give a direction under subparagraph (4) on an application made by that person, or
 - (c) a direction under that subparagraph given on such an application,
- may on the application of that person be determined by a magistrates' court, and in a case falling within subparagraph (b) or (c) the court may order the expense to which the application relates to be met by the local authority to such extent as the court thinks just.

Procedure on appeal or application

8 (1) This paragraph applies to—

- (a) an appeal to the magistrates' court under paragraph 5, or
 - (b) an application to the magistrates' court under paragraph 7(5).
- (2) Where this paragraph applies, the procedure is to be by way of complaint for an order.
- (3) The time within which an appeal under paragraph 5 may be brought is 21 days from the date on which the paragraph 3 notice was given.
- (4) The time within which an application under paragraph 7(5) may be made is 21 days from the date on which —
- (a) in the case of an application relating to the reasonableness of a test specified in a requirement imposed by a local authority, the date on which the authority gave notice of that requirement to the applicant,
 - (b) in the case of an application relating to a refusal by the local authority to give a direction under paragraph 7(4), the date on which the authority gave notice of that refusal to the applicant, and
 - (c) in the case of an application relating to a direction given by a local authority under paragraph 7(4), the date on which the authority gave notice of that direction to the applicant.'.

I ychwanegu Atodlen newydd—

'ATODLEN 1

(fel y'i mewnosodwyd gan adran 2)

GORFODI

Y gosb am fynd yn groes i adran 1(1)

- 1 Mae unrhyw berson sy'n gwneud gwaith adeiladu nad yw, ar yr adeg a ragnodir gan adran 1(1), yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4), yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Terfyn amser ar erlyn

- 2 (1) Er gwaethaf unrhyw beth a geir yn adran 127(1) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43), caiff llys ynadon roi ar brawf hysbysiaeth sy'n ymwneud â thrangwydd o dan baragraff 1 os caiff ei gosod ar unrhyw adeg—
- (a) o fewn cyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau ar y diwrnod y cyflawnwyd y tramgwydd, a
 - (b) o fewn cyfnod o chwe mis gan ddechrau ar y dyddiad perthnasol.
- (2) Yn is-baragraff (1)(b), ystyr “y dyddiad perthnasol” (“the relevant date”) yw'r dyddiad y daw tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau achos llys i sylw'r person sy'n cychwyn yr achos.
- (3) Mewn perthynas ag achos a gychwynwyd gan awdurdod lleol—
- (a) at ddibenion is-baragraff (2) uchod, ystyrir tystiolaeth yn ddigonol i gyfiawnhau achos os yw'n ddigonol ym marn y swyddog priodol neu'r swyddog awdurdodedig i gyfiawnhau achos, a
 - (b) bydd tystysgrif gan y swyddog priodol neu, yn ôl fel y digwydd, y swyddog awdurdodedig yn tystio i'r dyddiad y daeth y dystiolaeth sydd, ym marn y swyddog hwnnw, yn ddigonol i gyfiawnhau achos i sylw'r person sy'n cychwyn yr achos yn dystiolaeth derfynol o'r ffaith hwnnw.

Addasu gwaith tramgwyddus

- 3 (1) Os na fydd gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo yn cydymffurfio, ar yr adeg a ragnodir yn adran 1(1), â gofynion adran 1(4), ac os yw'r diffyg cydymffurfio â'r gofynion hynny yn parhau, caiff awdurdod lleol drwy hysbysiad ofyn i'r perchennog wneud y cyfryw addasiadau a all fod eu hangen er mwyn i'r gwaith gydymffurfio â'r gofynion hynny, a hynny heb ragfarnu hawl yr awdurdod i ddwyn achos am ddirwy mewn perthynas â'r tramgwyddo.
- (2) Os gwneir gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo —
- (a) heb roi'r wybodaeth sydd ei hangen yn ôl adran 3(1), neu
 - (b) er gwaethaf y ffaith bod yr awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad o dan adran 3(3),
- caiff yr awdurdod drwy hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gydymffurfio ag unrhyw ofynion a ragnodir yn yr hysbysiad, a'r rheini'n ofynion sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4).
- (3) Os na fydd person sydd wedi cael hysbysiad o dan is-baragraff (1) neu (2) uchod yn cydymffurfio â'r hysbysiad cyn pen 28 o ddiwrnodau neu unrhyw gyfnod hwy y mae llys ynadon yn ei ganiatáu ar apel gan y person hwnnw o dan baragraff 5, caiff yr awdurdod lleol wneud unrhyw addasiadau i'r gwaith y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4), a chaiff adennill gan y person hwnnw y costau y mae'r awdurdod wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud.
- (4) Mewn perthynas â hysbysiad o dan is-baragraff (1) neu (2) uchod (a elwir yn “hysbysiad paragraff 3”) —

- (a) rhaid iddo ddatgan y caiff y person y rhoddir yr hysbysiad iddo, o fewn yr amser a bennir gan baragraff 8, apelio yn erbyn yr hysbysiad i lys ynadon o dan baragraff 5, a
 - (b) ni chaniateir ei roi ar ôl i 12 mis fynd heibio oddi ar ddyddiad cwblhau'r gwaith dan sylw.
- (5) Ni chaniateir rhoi hysbysiad paragraff 3 os rhoddwyd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff 3(1) i'r awdurdod ac os gwnaed y gwaith yn unol â'r wybodaeth honno, a hynny ar y sail nad oedd y gwaith yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4), oni bai bod yr awdurdod wedi rhoi hysbysiad o dan adran 3(3) o fewn y cyfnod perthnasol.
- (6) Nid yw'r paragraff hwn yn amharu ar hawl awdurdod lleol, Gweinidogion Cymru neu unrhyw berson arall i wneud cais am waharddeb i gael addasu unrhyw waith ar y sail nad yw'n cydymffurfio â gofynion adran 1(4); ond os –
- (a) rhoddwyd gwybodaeth mewn perthynas â'r gwaith i'r awdurdod lleol yn unol ag adran 3(1),
 - (b) na roddodd yr awdurdod yr hysbysiad o dan adran 3(3) o fewn y cyfnod perthnasol, ac
 - (c) gwnaed y gwaith yn unol â'r wybodaeth honno,
- bydd gan y llys, adeg caniatáu'r waharddeb, y pŵer i orchymyn bod yr awdurdod lleol yn talu perchennog y gwaith yr iawndal y mae'r llys yn barnu sy'n gyfiawn, ond, cyn gwneud y cyfryw orchymyn, rhaid i'r llys yn unol â rheolau'r llys drefnu bod yr awdurdod lleol yn un o bartion yr achos, os nad ydyw eisoes.

Cael adroddiad lle rhoddir hysbysiad paragraff 3

4 (1) Pan fydd –

- (a) person sydd wedi cael hysbysiad paragraff 3 yn hysbysu'r awdurdod lleol a roddodd yr hysbysiad iddo o'i fwriad i gael adroddiad ysgrifenedig gan berson sydd wedi cymhwyso'n briodol ynghylch y gwaith y mae'r hysbysiad paragraff 3 yn perthyn iddo, a
 - (b) adroddiad o'r fath wedi'i gael ac wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol ac os bydd yr awdurdod lleol, o ganlyniad i'w ystyriaeth ohono, yn tynnu yn ôl ei hysbysiad paragraff 3, caiff yr awdurdod lleol dalu'r person y rhoddwyd yr hysbysiad paragraff 3 iddo y swm y mae'r awdurdod yn barnu sy'n cynrychioli'r costau yr aed iddynt yn rhesymol gan y person o ganlyniad i'r hysbysiad a roddwyd gan yr awdurdod, gan gynnwys, ym mhlith pethau eraill, y gost o gael yr adroddiad.
- (2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3) isod, os bydd person sydd wedi cael hysbysiad paragraff 3 yn rhoi hysbysiad ei hun o dan is-baragraff (1)(a) uchod o ran y materion y mae'r hysbysiad paragraff 3 yn perthyn iddynt, dehonglir y cyfeiriad at 28 o ddiwrnodau ym mharagraff 3(3) uchod fel cyfeiriad at 70 o ddiwrnodau.
- (3) Rhaid rhoi'r hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) uchod cyn pen y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y cyfeirir ato ym mharagraff 3(3) uchod, neu, yn ôl fel y digwydd, o fewn cyfnod hwy y mae'r llys yn ei ganiatáu o dan baragraff 3(3); ac ni fydd is-baragraff (2) uchod yn gymwys pan fydd cyfnod hwy wedi'i ganiatáu cyn rhoi hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) uchod.

Apelio yn erbyn hysbysiad paragraff 3

- 5 (1) Caiff person sy'n cael hysbysiad paragraff 3 apelio i lys ynadon ar sail unrhyw un o'r canlynol os yw'n briodol o dan amgylchiadau'r achos penodol –
- (a) nid oes modd cyfiawnhau'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad y mae'n ei orfodi gan delerau paragraff 3,
 - (b) ceir rhyw afreoleidd-dra, nam neu wall yn yr hysbysiad, neu mewn perthynas ag ef,
 - (c) mae'r awdurdod yn afresymol wedi gwrthod cymeradwyo gwneud gwaith amgen, neu mae'r gwaith sy'n ofynnol gan yr hysbysiad fel arall yn afresymol o ran ei nodweddion neu ei faint, neu nid yw'r gwaith yn angenrheidiol,
 - (d) nid yw'r amser a ganiatawyd ar gyfer cyflawni'r gwaith yn rhesymol ddigon i'r pwrpas hwnnw.
- (2) Os bydd apêl o dan yr adran hon wedi'i seilio ar ryw afreoleidd-dra, nam neu wall yn yr hysbysiad neu mewn perthynas ag ef, i'r graddau hynny, rhaid i'r llys wrthod yr apêl os yw wedi'i fodloni nad oedd yr afreoleidd-dra, nam neu wall yn sylweddol.

Y pŵer i fynd i mewn i fangre oedd

- 6 (1) Yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, bydd gan swyddog awdurdod lleol yr hawl i fynd i mewn i unrhyw fangre ar bob adeg resymol, ar yr amod ei fod yn gallu dangos, ar gais, ryw ddogfen a awdurdodwyd yn briodol sy'n profi ei awdurdod, a hynny –
- (a) at ddibenion canfod achos o fethu â chydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, y mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol eu gorfodi, yn y fangre neu mewn perthynas â hi,
 - (b) at ddibenion canfod a oes amgylchiadau yn bod a fyddai'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau, neu wneud unrhyw waith, o dan y Mesur hwn,
 - (c) er mwyn i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau, neu wneud unrhyw waith, a awdurdodir neu sy'n ofynnol gan y Mesur hwn, neu gan orchymyn a wnaed o dan y Mesur hwn, neu
 - (d) yn gyffredinol er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni ei swyddogaethau o dan y Mesur hwn.
- (2) Ni cheir mynnu'r hawl i fynd i mewn i fangre oni roddwyd 24 awr o rybudd i'r meddiannwr o'r bwriad i fynd i mewn.
- (3) Os gellir bodloni ynad heddwch gan dyngu gyda gwybodaeth ysgrifenedig –
- (a) y gwrthodwyd mynediad i unrhyw fangre, neu y dirnadwyd gwrthodiad o'r fath, neu os nad yw'r fangre wedi'i meddiannu, neu os yw'r meddiannwr yn absennol dros dro, neu os yw'r achos yn un brys, neu pe bai cais i gael mynediad yn trechu'r bwriad, a
 - (b) bod rheswm rhesymol dros gael mynd i fewn i'r fangre am unrhyw un o'r rhesymau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod,
- caiff yr ynad, gan warant drwy law'r ynad, awdurdodi'r awdurdod lleol drwy unrhyw swyddog awdurdodedig i gael mynediad i'r fangre, a hynny gan ddefnyddio grym, os bydd angen.

- (4) Ni cheir cyhoeddi gwarant o dan is-baragraff (3) uchod oni bai y bodlonwyd yr ustus –
 - (a) y rhoddwyd hysbysiad o’r bwriad i wneud cais am warant i’r meddiannwr, neu
 - (b) nad yw’r fangre wedi’i meddiannu, neu fod y meddiannwr yn absennol dros dro, neu fod yr achos yn un brys, neu y byddai rhoi’r hysbysiad yn trechu’r bwriad o gael mynd i mewn.
- (5) Caiff swyddog awdurdodedig sy’n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y paragraff hwn neu warant a gyhoeddwyd o dan y paragraff hwn fynd gydag ef unrhyw bersonau eraill y gall fod eu hangen, ac os aeth y swyddog i mewn i fangre nad oedd wedi’i meddiannu yn rhinwedd y cyfryw warant, rhaid iddo ei gadael wedi’i diogelu yn erbyn tresmaswyr yr un mor effeithiol ag ydoedd pan aeth i mewn iddi.
- (6) Bydd gwarant a gyhoeddwyd o dan y paragraff hwn yn parhau i fod mewn grym nes y diwallwyd y rheswm yr oedd angen cael mynediad iddi.

Profion cydymffurfio â gofynion y Mesur hwn

- 7 (1) Mae gan y paragraff hwn rym at ddiben galluogi awdurdod lleol i ganfod a yw unrhyw waith adeiladu, neu waith adeiladu sydd yn yr arfaeth, y mae’r Mesur hwn yn gymwys iddo, wedi cydymffurfio, neu yn mynd i gydymffurfio, ag unrhyw ofyniad yn y Mesur hwn y mae’n ddyletswydd i’r awdurdod ei orfodi.
- (2) Mae gan yr awdurdod lleol bŵer at y diben hwnnw –
 - (a) i’w gwneud yn ofynnol i’r person a wnaeth y gwaith, neu y gwnaed, gwneir, neu y bwriedir gwneud y gwaith ar ei ran, i gynnal y cyfryw brofion rhesymol ar y gwaith neu mewn perthynas ag ef a ragnodir yn y gofyniad, neu
 - (b) i gynnal profion rhesymol ei hun ar y gwaith neu mewn perthynas ag ef.
- (3) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd is-baragraff (2) uchod, mae’r materion y caniateir gofyn am gynnal profion yn eu cylch, neu y ceir cynnal profion yn eu cylch, o dan yr is-baragraff hwnnw yn cynnwys profi unrhyw ddeunydd, elfen neu gyfuniad o elfennau a ddefnyddir, neu y mae’n fwriad eu defnyddio, wrth wneud y gwaith, ynghyd â phrofi unrhyw wasanaeth, ffitiad neu offer sydd wedi’i ddarparu, neu sy’n cael ei ddarparu neu a fwriedir ei ddarparu mewn perthynas â’r gwaith hwnnw.
- (4) Rhaid i’r person y mae’n ofynnol o dan y paragraff hwn iddo gynnal y profion dalu costau cynnal y profion, ac eithrio os bydd yr awdurdod lleol, pan wneir cais i’r awdurdod, yn penderfynu ei fod yn rhesymol cyfarwyddo’r awdurdod lleol i dalu costau cynnal y profion, neu unrhyw ran o’r costau ag a ragnodir yn y cyfarwyddyd hwnnw.
- (5) Caiff unrhyw gwestiwn sy’n codi o dan y paragraff hwn rhwng awdurdod lleol a pherson ynghylch rhesymoldeb –
 - (a) prawf a ragnodir yn y gofyniad a orfodwyd ar y person hwnnw gan yr awdurdod o dan y paragraff hwn,
 - (b) yr awdurdod wrth wrthod rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (4) ar gais y person hwnnw, neu
 - (c) cyfarwyddyd o dan yr is-baragraff hwnnw a roddir ar gais o’r fath,

gael ei benderfynu gan lys ynadon ar gais y person hwnnw, ac, o ran achos sy'n codi o dan is-baragraff (b) neu (c), caiff y llys orchymyn bod yn rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r gost y mae'r cais yn ymwneud â hi, i'r graddau y mae'r llys yn barnu sy'n gyfiawn.

Gweithdrefn ar apêl neu gais

- 8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer –
- (a) apêl at lys ynadon o dan baragraff 5, neu
 - (b) gais i lys ynadon o dan baragraff 7(5).
- (2) Pan fydd y paragraff hwn yn gymwys, y weithdrefn bydd trwy gwên am orchymyn.
- (3) Rhaid dwyn yr apêl o dan baragraff 5 o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad paragraff 3 arno.
- (4) Rhaid gwneud cais o dan baragraff 7(5) o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad pryd –
- (a) yn achos cais sy'n ymwneud â rhesymoldeb prawf a ragnodwyd yn y gofyniad a orfodwyd gan awdurdod lleol, y rhoddwyd i'r ceisydd hysbysiad o'r gofyniad hwnnw gan yr awdurdod,
 - (b) yn achos cais sy'n ymwneud â gwrthodiad yr awdurdod i roi cyfarwyddyd o dan baragraff 7(4), y rhoddwyd hysbysiad o'r gwrthodiad hwnnw i'r ceisydd, ac
 - (c) yn achos cais sy'n ymwneud â chyfarwyddyd a roddwyd gan awdurdod lleol o dan baragraff 7(4), y rhoddwyd hysbysiad o'r cyfarwyddyd hwnnw i'r ceisydd.'

Ann Jones

25

To insert a new Schedule –

'SCHEDULE 2

(as introduced by section 2)

BUILDING WORK SUPERVISED OTHERWISE THAN BY LOCAL AUTHORITIES

Effect of initial notice under Part 2 of the 1984 Act

- 1 (1) This paragraph applies where an initial notice is in force and any work specified in the notice includes building work to which this Measure applies (whether such work forms the whole or part of the work so specified).
- (2) So long as the initial notice continues in force –
- (a) section 3 does not apply in relation to any work specified in that notice, and
 - (b) the function of enforcing the provisions of this Measure conferred on a local authority by section 2(1) is not exercisable in relation to that work and accordingly a local authority may not, in relation to that work –
 - (i) take proceedings in respect of an offence committed under paragraph 1 of Schedule 1, or

- (ii) take any other action to enforce this Measure or any requirement imposed by it.
- (3) Where, in respect of any work, an approved inspector is under a duty to give a final certificate to any person by virtue of section 51(1) of the 1984 Act (certificate of completion of work and discharge of functions), the approved inspector may not give the certificate unless the inspector has taken such steps as are reasonable to enable the inspector to determine whether or not the requirements of section 1(4) have been complied with in relation to that work.
- (4) If the approved inspector is satisfied that those requirements have been complied with in relation to the work –
 - (a) the inspector must issue a certificate to that effect; and
 - (b) when the inspector gives to any person the final certificate relating to the work the inspector must at the same time give to that person the certificate issued under this subsection.
- (5) Where –
 - (a) an initial notice ceases by virtue of section 51(3) of the 1984 Act to apply in respect of any work (acceptance by local authority of final certificate); and
 - (b) the approved inspector has issued and given a certificate in accordance with subsection (4) above in respect of that work,subparagraph (2) above continues to apply, by virtue of this subparagraph, in relation to that work as if the initial notice continued in force.
- (6) A person who –
 - (a) gives a certificate which purports to comply with subparagraph (4)(a) above and which contains a statement which that person knows to be false or misleading in a material particular; or
 - (b) recklessly gives a certificate which purports to comply with that subsection and which contains a statement that is false or misleading in a material particular,is guilty of an offence.
- (7) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (8) An approved inspector may make such charges in respect of the carrying out of any functions arising under this paragraph as may in any particular case be agreed between that inspector and the person who intends to carry out the work in question or, as the case may be, by whom that work is being or has been carried out.

Effect of public body's notice under Part 2 of the 1984 Act

- 2 (1) Where a public body's notice is in force and any work specified in the notice includes building work to which this Measure applies (whether such work forms the whole or part of the work so specified) –
 - (a) section 3 does not apply in relation to any work specified in that notice, and

- (b) the function of enforcing the provisions of this Measure conferred on a local authority by section 2(1) is not exercisable in relation to that work and accordingly a local authority may not, in relation to that work –
 - (i) take proceedings in respect of an offence committed under paragraph 1 of Schedule 1, or
 - (ii) take any other action to enforce this Measure or any requirement imposed by it.’.

I ychwanegu Atodlen newydd –

‘ATODLEN 2

(fel y’i mewnosodwyd gan adran 2)

GWAITH ADEILADU A ORUCHWYLIR GAN RYWUN AC EITHRIO AWDURDODAU
LLEOL

Effaith hysbysiad cychwynnol o dan Ran 2 o Ddeddf 1984

- 1 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan fydd hysbysiad cychwynnol mewn grym a bydd unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad yn cynnwys gwaith adeiladu y mae’r Mesur hwn yn gymwys iddo (pa un ai’r gwaith i gyd neu ran ohono ydyw).
- (2) Cyhyd â bod yr hysbysiad cychwynnol yn parhau i fod mewn grym –
 - (a) ni fydd adran 3 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad hwnnw, a
 - (b) ni fydd y swyddogaeth o orfodi darpariaethau’r Mesur hwn a roddir i awdurdod lleol yn adran 2(1) yn cael ei harfer mewn perthynas â’r gwaith hwnnw, ac felly ni chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â’r gwaith hwnnw –
 - (i) ddwyn achos mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd a gyflawnwyd o dan baragraff 1 Atodlen 1, neu
 - (ii) cymryd unrhyw gamau eraill i orfodi’r Mesur hwn nac unrhyw ofyniad a geir ynddo.
- (3) Pan fydd gan arolygydd cymeradwy ddyletswydd i roi tystysgrif derfynol i unrhyw berson mewn perthynas ag unrhyw waith yn rhinwedd adran 51(1) o Ddeddf 1984 (tystysgrif cwblhau’r gwaith a chyflawni swyddogaethau), ni chaiff yr arolygydd cymeradwy roi’r dystysgrif oni bai ei fod wedi cymryd y camau hynny sy’n rhesymol i alluogi’r arolygydd i benderfynu a yw’r gwaith hwnnw’n cydymffurfio â gofynion adran 1(4).
- (4) Os bydd yr arolygydd cymeradwy wedi’i fodloni bod y gwaith yn cydymffurfio â’r gofynion hynny –
 - (a) rhaid i’r arolygydd gyhoeddi tystysgrif yn dangos hynny; a
 - (b) pan fydd yr arolygydd yn rhoi’r dystysgrif derfynol i unrhyw berson mewn perthynas â’r gwaith, ar yr un pryd, rhaid i’r arolygydd hefyd roi’r dystysgrif a gyhoeddir o dan yr is-adran hon i’r person hwnnw.

(5) Yn yr achosion hyn –

- (a) pan na fydd hysbysiad cychwynnol yn parhau i fod yn gymwys yn rhinwedd adran 51(3) o Ddeddf 1984 mewn perthynas ag unrhyw waith (awdurdod lleol yn derbyn y dystysgrif derfynol); a
- (b) pan fydd yr arolygydd cymeradwy wedi cyhoeddi a rhoi tystysgrif yn unol ag is-adran (4) uchod mewn perthynas â'r gwaith hwnnw,

yn rhinwedd yr is-baragraff hwn, bydd is-baragraff (2) uchod yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â'r gwaith fel pe bai'r hysbysiad cychwynnol o hyd mewn grym.

(6) Bydd person sydd –

- (a) yn rhoi tystysgrif sy'n ymddangos fel pe bai'n cydymffurfio ag is-baragraff (4)(a) uchod ac sy'n cynnwys datganiad y mae'r person hwnnw yn gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol ynghylch manylyn sylweddol; neu
- (b) yn ddi-hid yn rhoi tystysgrif sy'n ymddangos fel pe bai'n cydymffurfio â'r is-adran honno ac sy'n cynnwys datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol ynghylch manylyn sylweddol,

yn euog o dramgwydd.

(7) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan yr adran hon yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(8) Caiff yr arolygydd cymeradwy godi unrhyw ffioedd wrth arfer unrhyw un o'r swyddogaethau o dan y paragraff hwn ag a gytunir gan yr arolygydd hwnnw a'r person sy'n bwriadu cwblhau'r gwaith dan sylw, neu, yn ôl fel y digwydd, y person sydd wrthi'n gwneud y gwaith neu sydd wedi cwblhau'r gwaith.

Effaith hysbysiad corff cyhoeddus o dan Ran 2 o Ddeddf 1984

2 (1) Pan fydd hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym a phan fydd unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad yn cynnwys gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo (pa un ai'r gwaith cyfan neu ran ohono) –

- (a) ni fydd adran 3 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad hwnnw, a
- (b) ni fydd modd arfer y swyddogaeth a roddir i awdurdod lleol gan adran 2(1) i orfodi darpariaethau'r Mesur hwn mewn perthynas â'r gwaith hwnnw ac, o ganlyniad, ni chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â'r gwaith hwnnw –
 - (i) dwyn achos mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd a gyflawnwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 1, neu
 - (ii) cymryd unrhyw gamau eraill i orfodi'r Mesur hwn neu unrhyw ofyniad a geir ynddo. '.

Ann Jones

5

Section 3, page 3, line 9, after '(2)', insert 'and be accompanied by such fee as may be prescribed'.

Adran 3, tudalen 3, llinell 9, ar ôl 'ef', ychwanegwch ', a rhaid cynnwys y cyfryw ffi a ragnodir'.

Ann Jones

6

Section 3, page 3, line 13, after 'is', insert ', whether in relation to form or to content,'.

Adran 3, tudalen 3, llinell 10, gadewch allan 'yw gwybodaeth,

- (a) at ddibenion dangos bod modd i'r gwaith, unwaith y caiff ei gwblhau, gydymffurfio ag adran 1(4), a
- (b) a ragnodwyd.'

a rhowch yn ei lle 'yw'r cyfryw wybodaeth, at ddibenion dangos bod modd i'r gwaith, unwaith y caiff ei gwblhau, gydymffurfio â gofynion adran 1(4), ac sydd, boed mewn perthynas â ffurf neu â chynnwys, wedi'i rhagnodi.'

Ann Jones

26

Section 3, page 3, line 19, leave out "28 days" and insert "the relevant period".

Adran 3, tudalen 3, llinell 19, gadewch allan "28 diwrnod" a rhowch yn ei le "y cyfnod perthnasol".

Ann Jones

7

Section 3, page 3, after line 21, insert –

- '(4) For the purposes of this Measure, "the relevant period" ("*y cyfnod perthnasol*"), means five weeks or such extended period (expiring not later than two months from the giving of such notice or the deposit of such plans) as may, before the expiration of the five weeks, be agreed in writing between the local authority and the person giving such notice or depositing such plans.
- (5) In any case where a question arises as to the correctness of the opinion of a local authority on which notice given under subsection (3) was based, the person to whom such notice was given may refer the question to the Welsh Ministers for determination and the Welsh Ministers may quash, vary or confirm that notice.
- (6) A reference to the Welsh Ministers under subsection (5) must be accompanied by such fee as may be prescribed.'

Adran 3, tudalen 3, ar ôl llinell 21, ychwanegwch –

- '(4) At ddibenion y Mesur hwn, ystyr "*y cyfnod perthnasol*" ("*the relevant period*") yw pum wythnos neu'r cyfryw gyfnod estynedig (sy'n dod i derfyn heb fod yn hwyrach na deufis ar ôl rhoi'r hysbysiad neu adneuo'r cynlluniau) ag a gytunir yn ysgrifenedig cyn diwedd y pum wythnos ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r person sy'n rhoi'r cyfryw hysbysiad neu'n adneuo'r cyfryw gynlluniau.
- (5) Mewn unrhyw achos pan fydd cwestiwn yn codi ynghylch cywirdeb barn awdurdod lleol y seiliwyd hysbysiad a roddwyd o dan is-adran (3) arni, caiff y person y cafodd y cyfryw hysbysiad ei roi iddo gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru i'w benderfynu a chaiff Gweinidogion Cymru ddiddymu, addasu neu gadarnhau'r hysbysiad.
- (6) Rhaid i'r ffi a ragnodir fynd gydag unrhyw gyfeiriad at Weinidogion Cymru o dan isadran (5).'

Ann Jones

8

Section 4, page 3, after line 24, insert –

“approved inspector” (*“arolygydd cymeradwy”*) has the same meaning as in Part 2 of the 1984 Act.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 23, ychwanegwch –

‘ystyr “arolygydd cymeradwy” (*“approved inspector”*) yw’r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984.’.

Ann Jones

11

Section 4, page 3, after line 24, insert –

“public body’s notice” (*“hysbysiad corff cyhoeddus”*) has the same meaning as in Part 2 of the 1984 Act.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 25, ychwanegwch –

“hysbysiad corff cyhoeddus” (*“public body’s notice”*) yw’r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984.’.

Ann Jones

12

Section 4, page 3, after line 25, insert –

“authorised officer” (*“swyddog awdurdodedig”*) means an officer of a local authority authorised in writing by that authority, either generally or specially, to act in matters of a specified kind or in a specified matter.’.

Adran 4, tudalen 4, ar ôl llinell 13, ychwanegwch –

‘ystyr “swyddog awdurdodedig” (*“authorised officer”*) yw swyddog awdurdod lleol sydd wedi’i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod hwynnw, boed yn gyffredinol neu’n benodol, i weithredu mewn materion o fath arbennig neu mewn mater penodol.’.

Ann Jones

9

Section 4, page 3, after line 27, insert –

“final certificate” (*“tystysgrif terfynol”*) has the same meaning as in Part 2 of the 1984 Act.’.

Adran 4, tudalen 4, ar ôl llinell 13, ychwanegwch –

“tystysgrif derfynol” (*“final certificate”*) yw’r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984.’.

Ann Jones

10

Section 4, page 3, after line 27, insert –

“initial notice” (*“hysbysiad cychwynnol”*) has the same meanings as in Part 2 of the 1984 Act.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 25, ychwanegwch –

“hysbysiad cychwynnol” (“*initial notice*”) yw’r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984.’

Ann Jones

13

Section 4, page 3, after line 27, insert –

“building work” (“*gwaith adeiladu*”) means the erection, extension or alteration of a building,

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 25, ychwanegwch –

‘ystyr “gwaith adeiladu” (“*building work*”) yw gwaith i godi, estyn neu addasu adeilad.’;

Ann Jones

14

Section 4, page 3, after line 27, insert –

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means a county council or county borough council in Wales.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 23, ychwanegwch –

‘ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.’.

Ann Jones

15

Section 4, page 3, after line 27, insert –

“owner” (“*perchennog*”) has the same meaning as in the 1984 Act.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 25, ychwanegwch –

‘ystyr “perchennog” (“*owner*”) yw’r ystyr a roddir iddo yn Neddf 1984.’.

Ann Jones

16

Section 4, page 3, after line 29, insert –

“proper officer” (“*swyddog priodol*”), in relation to a purpose and to a local authority, means an officer appointed for that purpose by that authority.’.

Adran 4, tudalen 4, ar ôl llinell 13, ychwanegwch-

‘ystyr “swyddog priodol” (“*proper officer*”), mewn perthynas â phwrpas ac ag awdurdod lleol, yw swyddog a benodwyd at y diben hwnnw gan yr awdurdod hwnnw.’.

Ann Jones

17

Section 4, page 3, line 33, leave out ‘residential care home’ and insert ‘care home (where “care home” (“*cartref gofal*”) has the same meaning as in the Care Standards Act 2000 (c.14))’.

Adran 4, tudalen 3, llinell 29, gadewch allan ‘preswyl’ a rhowch yn ei le ‘(pan fydd i “cartref gofal” (“*care home*”) yr un ystyr ag sydd iddo yn Neddf Safonau Gofal 2000 (p.14))’.

Ann Jones

18

Section 4, page 4, at the beginning of line 9, insert ‘Subject to subsection (3),’

Adran 4, tudalen 4, ar ddechrau llinell 14, ychwanegwch ‘Yn ddarostyngedig i is-adran (3),’

Ann Jones

19

Section 4, page 4, line 10, after ‘(1), insert –

‘by –

- (a) adding a class of residential premises, or
- (b) amending the description of an existing class of residential premises.
- (3) In subsection (2), “residential premises” has the same meaning as in –
 - (a) paragraph 7 of Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), when in force, or,
 - (b) until then, Matter 11.1 in Part 1 of Schedule 5 to that Act.’

Adran 4, tudalen 4, llinell 15, ar ôl ‘(1), ychwanegwch –

‘drwy –

- (a) ychwanegu dosbarth o fangreoedd preswyl, neu
- (b) diwygio’r disgrifiad o ddosbarth o fangreoedd preswyl sydd eisoes yn bodoli.
- (3) Yn is-adran (2), ystyr “mangreoedd preswyl” (“residential premises”) yw’r ystyr a roddir iddo yn –
 - (a) paragraff 7 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), unwaith y bydd mewn grym, neu,
 - (b) tan hynny, Mater 11.1 yn Rhan 1 Atodlen 5 i’r Ddeddf honno.’

Nick Ramsay

28

Section 6, page 4, line 20, after ‘cases’, insert ‘including the application of provisions on a pilot basis’.

Adran 6, tudalen 4, llinell 29, ar ôl ‘gwahanol,’ ychwanegwch ‘gan gynnwys cymhwyso’r darpariaethau ar sail cynllun peilot,’.

Ann Jones

20

Section 6, page 4, line 24, after ‘1(4)(c), insert ‘, 3(1)’.

Adran 6, tudalen 4, llinell 34, ar ôl ‘1(4)(c), ychwanegwch ‘, 3(1)’.

Nick Ramsay

27

Section 6, page 4, after line 26, insert –

‘() regulations made for the purposes of section 1(4)(c),’.

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 36, ychwanegwch –

‘() rheoliadau a wneir at ddibenion adran 1(4)(c),’.

Ann Jones

21

Section 7, page 5, line 11, leave out ‘1 and 3’ and insert ‘1(4), 3(1) and 3(2)’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 12, gadewch allan ‘1 a 3’ a rhowch yn eu lle ‘1(4), 3(1) a 3(2)’.

Ann Jones

22

Section 7, page 5, line 12, after ‘1(4)(c),’ insert ‘, 3(1)’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 13, ar ôl ‘1(4)(c),’ ychwanegwch ‘, 3(1)’.

Ann Jones

23

To insert a new Section –

‘() Authentication and service of documents

The provisions of the following sections of the 1984 Act apply in relation to documents authorised or required to be given, made, issued or served by or under this Measure, as they apply in relation to those given, made, issued or served under that Act –

- (a) section 93 (authentication of documents),
- (b) section 94 (service of documents), and
- (c) section 94A (electronic service of documents).’

I ychwanegu Adran newydd –

‘() Dilysiad a dyroddi dogfennau

Mae darpariaethau’r adrannau canlynol o Ddeddf 1984 yn gymwys mewn perthynas â dogfennau yr awdurdoddir neu y gorfoddir eu rhoi, eu gwneud, eu dyroddi neu’u cyflwyno o dan y Mesur hwn, fel y maent yn gymwys mewn perthynas â’r rhai a roddir, a wneir, a ddyroddir neu a gyflwynir o dan y Ddeddf honno –

- (a) adran 93 (dilysu dogfennau),
- (b) adran 94 (cyflwyno dogfennau), ac
- (c) adran 94A (cyflwyno dogfennau’n electronig).’